Rhif: **WG26915**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad

## Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arferion gorau

### Atodiad 3

### Drafft

*Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*

Diben Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhan ganolog o becyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisïau a dogfennau cyngor cynllunio newydd a diwygedig, a chanllawiau arferion gorau ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddant, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.

Mae'r ddogfen ddrafft hon yn rhan o'r ymgynghoriad deuddeg wythnos ar gynigion i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a dogfennau canllaw drafft sy'n ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd yn dod i ben ar 3 Hydref 2016. Mae'r ddogfen ymgynghori, y ffurflen ymateb a'r holl ganllawiau drafft cysylltiedig ar gael ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we (http://llyw.cymru/consultations/cultureandsport/?skip=1&lang=cy).


Wrth baratoi'r ddogfen hon, aed ati ar yr un pryd i ddiwygio pennod 6, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn Polisi Cynllunio Cymru  ac i lunio Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Byddai'n fuddiol darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau hynny.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar bennod 6 o Polisi Cynllunio Cymru i ben ar 13 Mehefin 2016 ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion ar hyn o bryd. Mae'r bennod ar gael o hyd ar y dudalen ymgynghori ar y we (http://llyw.cymru/consultations/planning/proposed-changes-to-planning-policy-wales-chapter-6-the-historic-environment/?skip=1&lang=cy) ond mae'n bosibl y bydd yn cael ei newid ar ôl i ganlyniadau'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at y fersiwn honno.

Ar yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn, mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn mynd ati hefyd i geisio barn am Nodyn Cyngor Technegol 24. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw, a fydd yn para deuddeg wythnos, hefyd yn dod i ben ar 3 Hydref 2016, a byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn mynegi barn. Ewch i dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we (http://llyw.cymru/consultations/planning/?skip=1&lang=cy) i lawrlwytho Nodyn Cyngor Technegol 24, y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb. Mae unrhyw gyfeiriadau at Nodyn Cyngor Technegol 24 yn cyfeirio at y fersiwn honno.

# Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



RHEOLI

DRAFFT

Gorffennaf 2016

Cadw

# Datganiad o Ddiben

*Dathlu statws Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.*




© Nick Horler Photography

Mae *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* yn ategu'r adrannau perthnasol o *Bolisi Cynllunio Cymru:* Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.*[1]

Mae'n nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a chanllawiau ar gyfer eu gwarchod drwy'r system gynllunio.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu at y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys awdurdodau cynllunio cenedlaethol a lleol, ymgymerwyr statudol a darpar ddatblygwyr, er mwyn codi proffil a chynyddu pwysigrwydd Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a'u helpu i reoli newid heb amharu ar eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol — sef y rhesymau pam maent wedi'u harysgrifo fel Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Dylai'r canllawiau hyn gael eu hystyried gan awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau wrth ddatblygu cynlluniau strategol ac ystyried cynigion a allai effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd, megis ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio, cydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad heneb gofrestredig, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

# Cynnwys

*Traphont Ddŵr Thomas Telford, sef nodwedd ganolog Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.*



© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru


**Ffeithiau Cyflym** 2

**Cyflwyniad** 3

**1 Llywodrathu Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru** 4

1.1 Y Cyd-destun Rhyngwladol 4
1.2 Cyd-destun y DU 4
1.3 Y Cyd-destun Cymreig 5
1.4 Cyrff Cynghori Eraill 5

**2 Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru** 7

2.1 Egwyddorion Cyffredinol 7
2.2 Gwarchod drwy Ddynodi a Dulliau Eraill 8
2.3 Egwyddorion Cadwraeth 8
2.4 Cynlluniau Rheoli 9
2.5 Grwpiau Rheoli/Llywio a Chydgysylltwyr Safleoedd 9
2.6 Adroddiadau Cyfnodol 12
2.7 Adroddiadau Cyflwr Cadwraeth 12

**3 Polisi Cynllunio a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru** 13

3.1 Cynllunio ar gyfer Newid 13
3.2 Cynlluniau Datblygu Lleol 13
3.3 Canllawiau Cynllunio Ategol 14
3.4 Lleoliad a Golygfeydd 14
3.5 Clustogfeydd 14

**4 Rheoli Datblygu a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru** 17

4.1 Rheoli Newid 17
4.2 Asesu Effaith Datblygu ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru 17
4.3 Hawliau Datblygu a Ganiateir 18
4.4 Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol 18
4.5 Galw Ceisiadau Cynllunio i Mewn a'u Cyfeirio at Bwyllgor Treftadaeth y Byd 18

**Astudiaethau Achos**

Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd 10
Canllawiau Cynllunio Ategol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte 15

**Atodiadau**

1 Rôl Pwyllgor Treftadaeth y Byd 19
2 Canllawiau Gweithredol UNESCO 19
3 Enwebu ac Ailenwebu 19

**Rhestr Termau** 20

**Cyfeiriadau** 22

**Rhagor o Wybodaeth** 24

**Cysylltiadau** 24


Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffeithiau Cyflym

1 **Statws Safle Treftadaeth y Byd yw'r gydnabyddiaeth uchaf y gellir ei rhoi i werth treftadaeth.**

2 **Mae tri Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru ar hyn o bryd.**

3 **Oherwydd eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, mae gennym gyfrifoldeb i warchod, cadw a chyflwyno Safleoedd Treftadaeth y Byd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

4 **Mae canllawiau cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliadau rhag gwaith datblygu amhriodol.**

5 **Mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

6 **Gall Safleoedd Treftadaeth y Byd ddod â manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau lleol drwy addysg, twristiaeth a gweithgarwch adfywio.**

# Cyflwyniad

*Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn lleoedd o Werth Cyffredinol Eithriadol i'r ddynoliaeth gyfan. Golyga hyn fod eu pwysigrwydd diwylliannol a/neu naturiol 'so exceptional as to transcend national boundaries and to be of common importance for present and future generations of all humanity.' (Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO)*

Mae pwysigrwydd rhyngwladol treftadaeth Cymru wedi'i gydnabod drwy arysgrifo tri Safle Treftadaeth y Byd sy'n dangos pwysigrwydd byd-eang Cymru yn hanes pensaernïaeth filwrol ganoloesol a tharddiad diwydiant.[2]

Mae ein Safleoedd Treftadaeth y Byd yn lleoedd i'w gwerthfawrogi a'u dathlu am byth. Rydym am feithrin gwell dealltwriaeth o'u hanes a'r hyn sy'n eu gwneud yn rhyngwladol bwysig fel y bydd pobl yn eu gwerthfawrogi ac yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir ganddynt drwy wella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth, gweithgarwch adfywio a dysgu gydol oes. Gyda'i gilydd, bydd y manteision hyn yn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol drwy gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).[3]

Mae gwarchod a chadw Safleoedd Treftadaeth y Byd yn hanfodol i gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

*Castell Caernarfon — un o'r pedwar safle sy'n ffurfio Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.*



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

# 1. Llywodraethu Safleoedd Treftadaeth y B yng Nghymru

## 1.1 Y Cyd-destun Rhyngwladol

Ystyrir bod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn lleoedd o Werth Cyffredinol Eithriadol, fel y nodir yng Nghonfensiwn UNESCO ynghylch Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972), sy'n fwy adnabyddus fel Confensiwn Treftadaeth y Byd[4].

### Confensiwn Treftadaeth y Byd

Mae Confensiwn Treftadaeth y Byd yn fwyaf enwog am Restr Treftadaeth y Byd, ond mae'n ymdrin â chadw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn gyffredinol. Cyfeirir at lywodraethau gwledydd sydd wedi cadarnhau'r confensiwn fel Partïon Gwladol. Yn 2016, mae 191 o Bartïon Gwladol wedi cadarnhau'r confensiwn, gan gynnwys Llywodraeth y DU.

### Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO yn goruchwylio'r gwaith o roi'r confensiwn ar waith (gweler Atodiad 1). Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o 21 o Bartïon Gwladol i'r confensiwn a etholwyd gan eu cynulliad cyffredinol.

Cefnogir y pwyllgor gan Ganolfan Treftadaeth y Byd, sy'n gweithredu fel ei ysgrifenyddiaeth, ac fe'i cynghorir gan dri chorff rhyngwladol — sef ICOMOS, IUCN ac ICCROM — sy'n rhoi cyngor iddo ar enwebiadau a chyflwr cadwraeth eiddo, materion strategol a cheisiadau am gymorth rhyngwladol.



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

### Canllawiau Gweithredol UNESCO

Mae'r pwyllgor yn cyhoeddi *Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention* (Canllawiau Gweithredol) yn rheolaidd. Mae Canllawiau Gweithredol UNESCO yn esbonio'r meini prawf ar gyfer asesu Gwerth Cyffredinol Eithriadol ac yn disgrifio gweithdrefnau sydd eu hangen ar gyfer gwarchod, cadw a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd (gweler Atodiad 2).

## 1.2 Cyd-destun y DU

Cadarnhaodd y Deyrnas Unedig Gonfensiwn Treftadaeth y Byd ym 1984 ac erbyn hyn mae ganddi 29 o Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r adran o'r llywodraeth sy'n arwain ar faterion sy'n ymwneud â Threftadaeth y Byd ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau fel Parti Gwladol i Gonfensiwn Treftadaeth y Byd. DCMS yw man cyswllt y DU ag UNESCO ac mae'n gweithio'n agos gyda llysgennad y DU i UNESCO. Mae DCMS yn cydweithio â Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag enwebu, cadw a gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a materion polisi fel y bo'n briodol.

Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO yw'r canolbwynt yn y DU ar gyfer polisïau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag UNESCO, gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd, ac mae'n hyrwyddo nodau addysgol, gwyddonol a diwylliannol UNESCO, y gellir cyflawni rhai ohonynt drwy Safleoedd Treftadaeth y Byd.

*Gall pawb fynd i mewn i Gastell Caernarfon diolch i bont a gynlluniwyd yn sensitif*

## 1.3 Y Cyd-destun Cymreig

Mae tri Safle Treftadaeth y Byd (cyfan neu rannol) yng Nghymru, sef:

- Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd (a arysgrifwyd yn 1986)
- Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (a arysgrifwyd yn 2000)
- Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (a arysgrifwyd yn 2009).

Mae'r systemau sydd ar waith i warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru yn faterion datganoledig a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r confensiwn. Cyflawnir y swyddogaethau hyn drwy Cadw, sef Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae DCMS yn cyfeirio ymholiadau gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO ynglŷn â Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru at Cadw.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am nodi'r elfennau hynny o Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru y dylid eu gwarchod yn statudol fel henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig.

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl bwysig i'w chwarae o ran rheoli newid i Safleoedd Treftadaeth y Byd, eu gwarchod a'u cadw . Maent yn gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth, a all gynnwys rhannau o Safle Treftadaeth y Byd. Maent hefyd yn gyfrifol am gynllunio Safleoedd Treftadaeth y Byd yn ofodol ac, mewn rhai achosion, gyfathrebu, rheoli a hyrwyddo. Weithiau, mae awdurdodau lleol yn berchen ar rannau o Safleoedd Treftadaeth y Byd.

## 1.4 Cyrff Cynghori Eraill

Gall ICOMOS-UK roi cyngor anstatudol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol a grwpiau rheoli/llywio Safleoedd Treftadaeth y Byd.


World Heritage UK yw'r sefydliad sy'n hyrwyddo rheoli a chadw Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU mewn ffordd gynaliadwy.

*Mae Neuadd y Gweithwyr, Blaenafon, a adnewyddwyd yn llwyr, yng nghanol y dref hanesyddol.*



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

# Llywodraethu Treftadaeth y Byd yng Nghymru



# 2. Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

## 2.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn asedau hanesyddol cymhleth. Gallant ymestyn dros ardaloedd mawr, megis Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, bod ar wahân yn ofodol megis Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, a chroesi ffiniau cenedlaethol megis Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Mae dull Llywodraeth Cymru o warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn seiliedig ar ddynodi elfennau o bob safle yn statudol, defnyddio'r system cynllunio gofodol a llunio a gweithredu cynlluniau rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd ar y cyd â chyrff eraill er mwyn sicrhau cyfranogiad effeithiol a gweithredol pob rhanddeiliad allweddol.

Mae gan bob Safle Treftadaeth y Byd Ddatganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol. Mae'r datganiad hwn yn nodi dealltwriaeth glir a rennir o'r rhesymau dros arysgrifo'r safle ar Restr Treftadaeth y Byd, a'r hyn sydd angen ei reoli er mwyn cynnal y Gwerth Cyffredinol Eithriadol yn yr hirdymor.

Nodir isod brif elfennau'r gwaith o warchod a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru:[5]

- Dynodi asedau hanesyddol penodol ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn statudol (adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth).
- Cydnabod statws Safle Treftadaeth y Byd fel ystyriaeth berthnasol bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Llunio datganiad dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau cynllunio penodol o fewn Safle Treftadaeth y Byd.[6]
- Cynnwys polisïau mewn cynlluniau datblygu lleol er mwyn diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Safleoedd Treftadaeth y Byd a hwylusir drwy lunio canllawiau cynllunio ategol.[7]
- Llunio a mabwysiadu cynlluniau rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Sefydlu grwpiau rheoli/llywio gan gynnwys cynrychiolaeth rhanddeiliaid o bartneriaid allweddol, perchenogion mawr, rheolwyr a chymunedau.
- Gwaith cydgysylltu effeithiol, fel arfer gan gydgysylltydd penodol.

*Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol er mwyn helpu i reoli rhedyn ar Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.*



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

*Mae Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn croesi ffiniau cenedlaethol. Mae cydgysylltu'r gwaith rheoli yn helpu i warchod ei Werth Cyffredinol Eithriadol.*




© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

## 2.2 Gwarchod drwy Ddynodi a Dulliau Eraill

Gwarchodir rhannau sylweddol o bob un o'r tri Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru gan ddynodiad statudol fel henebion cofrestredig unigol, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Mae'n drosedd difrodi'r asedau hanesyddol dynodedig hyn neu wneud gwaith arnynt heb gael caniatâd ymlaen llaw. Mae Cadw, ar ran Gweinidogion Cymru, yn gweinyddu cydsyniad heneb gofrestredig ac mae awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth.

Gall Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn gyfan neu'n rhannol, hefyd elwa o gael eu gwarchod gan ddefnyddio dulliau eraill gan gynnwys eu lleoliad o fewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a safleoedd ar y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru. Dylid adolygu'r hyn a warchodir yn barhaus a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, sy'n cynnwys lleoedd ar Safle Treftadaeth y Byd. Os bydd awdurdodau cynllunio lleol yn nodi asedau hanesyddol lleol o'r fath, mae'n rhaid cynnwys polisïau ar gyfer eu diogelu a'u gwella yn y cynllun datblygu lleol.[8]



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae'r pedwar cofnod amgylchedd hanesyddol rhanbarthol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am asedau hanesyddol nas dynodwyd.

## 2.3 Egwyddorion Cadwraeth

Mae *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*[9] a gyhoeddwyd gan Cadw, yn esbonio dull Llywodraeth Cymru o reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy ac mae'n adlewyrchu llawer o ragdybiaethau Confensiwn Treftadaeth y Byd. Gellir defnyddio pedwar gwerth treftadaeth, sef tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol, fel sail gyson i ddisgrifio pwysigrwydd safle. Gall y gwerthoedd treftadaeth hyn helpu i ddiffinio'r nodweddion sy'n cyfleu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd a gydnabyddir am ei werth diwylliannol, fel y'i diffinnir yng Nghanllawiau Gweithredol UNESCO.[10]
Gallai'r nodweddion hyn gynnwys y canlynol:

- ffurf a chynllun
- deunyddiau a sylwedd
- defnydd a swyddogaeth
- traddodiadau, technegau a systemau rheoli
- lleoliad
- iaith a mathau eraill o dreftadaeth anniriaethol
- ysbryd a theimlad
- ffactorau mewnol ac allanol eraill.

Yn ymarferol, nid yw'n hawdd cymhwyso amodau dilysrwydd yn achos nodweddion megis ysbryd a theimlad ond, serch hynny maent yn ddangosyddion pwysig o gymeriad ac ymdeimlad o le, er enghraifft, mewn cymunedau sy'n cynnal traddodiad a pharhad diwylliannol.

Dylid diffinio nodweddion a chytuno arnynt ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd yn seiliedig ar y Datganiad cymeradwy o Werth Cyffredinol Eithriadol.

*Castell Harlech – un o'r pedwar safle sy'n ffurfio Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.*

## 2.4 Cynlluniau Rheoli

Er mwyn aros ar Restr Treftadaeth y Byd, mae'n rhaid i Bartïon Gwladol sicrhau bod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael ei gadw, ei gynnal a'i gyfleu. Mae UNESCO yn argymell y dylid llunio cynlluniau rheoli ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd er mwyn dod â'r holl bartïon cyfrifol at ei gilydd a'i gwneud yn bosibl i'r safle gael ei reoli mewn ffordd gysylltiedig. At hynny, y cynllun rheoli yw'r ffordd y gall UNESCO fod yn sicr bod systemau rheoli digonol ar waith er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gadw Safle Treftadaeth y Byd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r corff arweiniol ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru ddilyn canllawiau UNESCO, sef y dylai fod gan bob Safle Treftadaeth y Byd gynllun rheoli â gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y safle ac amcanion byrdymor, tymor canolig a hirdymor i warchod, cadw a chyflwyno'r safle.[11]

Dylid teilwra cynlluniau er mwyn diwallu nodweddion ac anghenion penodol y safle. Dylent nodi nodweddion Gwerth Cyffredinol Eithriadol yn glir a darparu polisïau ar gyfer eu diogelu. Mae cynlluniau rheoli yn gweithredu fel dogfennau fframwaith y bwriedir iddynt gynnal Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd. Dylent sefydlu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth am fygythiadau a chyfleoedd ar gyfer y safle fel y gellir ei reoli mewn ffordd gynaliadwy. Dylid adolygu cynlluniau rheoli o leiaf bob pum mlynedd.

Dylai cynlluniau fod yn seiliedig ar gonsensws ac yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae angen ystyried polisïau perthnasol yn y cynllun rheoli mewn cynlluniau datblygu lleol, cynlluniau rheoli awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac wrth benderfynu ar ganiatâd cynllunio. Mae'n arfer da mabwysiadu'r cynllun rheoli cyfan neu ran ohono fel canllawiau cynllunio ategol.

## 2.5 Grwpiau Rheoli/Llywio a Chydgysylltwyr Safleoedd

Lleolir pob un o Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru o fewn mwy nag un ardal awdurdod cynllunio lleol. Mae grwpiau rheoli/llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl awdurdodau cynllunio lleol perthnasol (gan gynnwys swyddogion cadwraeth ac archaeolegwyr curadol), perchenogion, rheolwyr, cynghorau cymuned a thref, Cadw a chyrff swyddogol eraill sydd â diddordeb yn y safle. Fel arfer mae ICOMOS-UK yn aelod o grwpiau rheoli/llywio. Y perchennog allweddol neu geidwad y safle, neu'r awdurdod lleol allweddol, yw arweinydd y grŵp yn aml.

Mae llwyddiant safle — o ran ei warchod, ei gadw a'i hyrwyddo — yn dibynnu ar gyfraniad a gweledigaeth gyffredin y partneriaid. Mae pob grŵp rheoli/llywio yn gyfrifol am lunio'r cynllun a'i roi ar waith, gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd. Felly, mae'n hanfodol bod pob partner yn barod i neilltuo'r amser a'r adnoddau i sicrhau llwyddiant y cynllun rheoli.

Mae grwpiau rheoli/llywio a chynlluniau rheoli yn fwyaf effeithiol pan fydd cydgysylltydd Safle Treftadaeth y Byd wedi'i benodi. Mae cydgysylltwyr Safleoedd Treftadaeth y Byd yn llywio'r gwaith o weithredu, monitro a diwygio cynllun rheoli, yn hyrwyddo Gwerth Cyffredinol Eithriadol a budd cyhoeddus Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn meithrin dealltwriaeth ymhlith partneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, ac yn darparu canolbwynt ar gyfer cyngor. Maent yn cynrychioli buddiannau safleoedd a phartneriaid ac yn hyrwyddo arfer gorau o ran rheoli Safle Treftadaeth y Byd, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Maent yn llunio ac yn cydgysylltu'r adroddiadau cyfnodol i UNESCO.

Dylai grwpiau rheoli/llywio ymgynghori â Cadw cyn cynnig newidiadau a fydd yn gofyn am ailenwebiad llawn am fod y broses hon yn un hir a drud. Ar hyn o bryd, byddai ailenwebiadau o'r fath hefyd yn atal safle newydd rhag cael ei enwebu o fewn yr un cylch pwyllgor (gweler Atodiad 3).

# Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd

Er i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon gael ei arysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2000, sefydlwyd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon dair blynedd ynghynt. Fe'i sefydlwyd nid yn unig i gydgysylltu'r enwebiad llwyddiannus ond hefyd i roi'r cynllun rheoli cysylltiedig ar waith — fel y nodir yng Nghanllawiau Gweithredol UNESCO.

A thref hanesyddol Blaenafon yng nghanol y dirwedd hon, mae'r safle yn bwysig oherwydd olion helaeth gweithfeydd a gweithgarwch prosesu mwynau cynnar, yn ogystal ag olion gweithgarwch cynhyrchu glo, haearn a dur masnachol diweddarach.

Mae'r safle, wrth reswm, yn cwmpasu ardal fawr — 3,290 hectar — sy'n croesi ffiniau tri awdurdod cynllunio ac mae'n cynnwys nifer fawr o randdeiliaid sy'n amrywio o asiantaethau cenedlaethol i drigolion Blaenafon a'r aneddiadau o'i hamgylch. Roedd cydgysylltu a rheoli yn heriau mawr.

Yn ogystal â'i gwarchod, canolbwyntiodd y bartneriaeth — a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol a chenedlaethol dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen — ei gweledigaeth ar gyflwyno a hyrwyddo'r dirwedd er mwyn cynyddu twristiaeth ddiwylliannol a chynorthwyo gweithgarwch adfywio economaidd mewn ardal a oedd yn ddirwasgedig, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Ddeng mlynedd ar ôl i'r safle gael ei arysgrifo, adolygodd y bartneriaeth lwyddiant y cynllun rheoli cyntaf. Mae ei rhestr o'r hyn a gyflawnwyd yn drawiadol ac mae'n cynnwys y canlynol:


- Achub, cadw a dehongli henebion cenedlaethol gan gynnwys arddangosfeydd amlgyfrwng o'r radd flaenaf yn y gwaith haearn.
- Cadw ac ailddefnyddio adeiladau adfeiliedig. Lleolir Canolfan Treftadaeth y Byd benodol gyntaf y DU mewn hen ysgol.
- Gwaith atgyweirio mawr ar 500 o eiddo hŷn.
- Gwelliannau amgylcheddol, yn arbennig gwaith a wnaed gan barcmyn gwirfoddol fel rhan o brosiect Tirweddau Angof.

*Chwith: Mae i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon ei hunaniaeth ei hun sy'n helpu i uno gwaith llawer o bartneriaid.*

*Gwaelod: Mae Gwaith Haearn Blaenafon, yng nghanol Safle Treftadaeth y Byd, yn safle mawr a gwasgaredig. Mae gwaith cadwraeth diweddar ac arddangosfeydd digidol o'r radd flaenaf bellach yn golygu y gall pawb ei fwynhau.*




© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

- Swyddi newydd, sgiliau newydd a busnesau newydd, megis Bragdy a phrofiad ymwelwyr Rhymni.
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant twristiaid.
- Rhaglenni addysg a digwyddiadau, gan gynnwys Diwrnod Treftadaeth y Byd blynyddol Blaenafon.
- Cyfranogiad y gymuned a gwirfoddolwyr, sydd wedi ennyn ymdeimlad newydd o falchder yn y dref.

> *'Blaenavon probably offers the best model of the potential for WHS heritage-led regeneration in the UK.'*
>
> Astudiaeth Ryngwladol a gynhaliwyd gan Rebanks Consulting Ltd.

Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r 10 mlynedd gyntaf, aeth y bartneriaeth ati i gynllunio ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Roedd y broses hon yn cynnwys diwygio'r ffordd y mae'r grŵp llywio yn gweithredu a rhoi rôl fwy strategol iddo, ac ystyried y posibilrwydd o sefydlu clustogfa i warchod ardal ehangach sydd o bwys diwylliannol. Mae'r cynllun rheoli newydd yn cynnwys rhai prosiectau penodol, y mae arian wedi'i sicrhau ar eu cyfer, yn ogystal â chynigion mwy uchelgeisiol.

Ar ôl ymgynghori'n helaeth â phartneriaid a'r cyhoedd, mae'r bartneriaeth wedi mabwysiadu'r cynllun rheoli newydd hwn ar gyfer 2011–16 er mwyn llywio'r gwaith o warchod a hyrwyddo Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon am bum mlynedd arall, a sicrhau y bydd trigolion Blaenafon a'r ardal oddi amgylch yn parhau i weld newid er gwell.

Mae'r cynllun rheoli a dogfennau ategol ar gael ar wefan Visit Blaenavon www.visitblaenavon.



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

*Bob blwyddyn, mae trigolion Blaenafon yn dathlu arysgrifo Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae statws Treftadaeth y Byd wedi helpu i adfywio'r ardal a chreu ymdeimlad newydd o falchder yn y dref.*

## Crynodeb

Mae cynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn dangos arfer gorau am y rhesymau canlynol:

- Mae Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon yn llwyddo i ddod â'r holl bartïon cyfrifol at ei gilydd er mwyn cydweithio ar y cynllun rheoli.

*Mae gan wirfoddolwyr ran bwysig i'w chwarae yn helpu i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd.*



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

- Mae gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y safle sy'n ymateb i anghenion lleol yn ogystal â gwarchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle.
- Mae'n nodi pwysigrwydd y safle a sut y gellir ei warchod a'i wella.
- Mae'n nodi rolau rheoli a chyfrifoldebau'r bartneriaeth, y grŵp llywio a'r gweithgorau, sy'n ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid.
- Mae'n nodi amcanion rheoli sy'n canolbwyntio ar y materion a'r cynigion allweddol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau penodol, gan gynnwys cyfnodau cyflwyno tebygol a ffynonellau posibl o arian.
- Mae ymgynghori'n eang â'r cyhoedd a phartneriaid wedi sicrhau bod y cynllun yn un cadarn.
- Mae llwyddiant y cynllun wedi dangos bod y gwaith o warchod treftadaeth a gwaith adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth yn ategu ei gilydd.
- Adolygir y cynllun yn rheolaidd.

## 2.6 Adroddiadau Cyfnodol

Bob chwe blynedd, mae'r Partïon Gwladol yn cyflwyno adroddiad cyfnodol i Bwyllgor Treftadaeth y Byd er mwyn dangos sut y maent yn gweithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cyflwr cadwraeth pob un o'u Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Bwriedir i adroddiadau cyfnodol ddarparu'r canlynol:

- Asesiad o'r modd y mae Parti Gwladol yn gweithredu'r confensiwn.
- Asesiad ynghylch a yw Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd sydd wedi'i arysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd yn cael ei gynnal dros amser.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am Safle Treftadaeth y Byd er mwyn cofnodi unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau a'i gyflwr cadwraeth.
- System ar gyfer cydweithredu rhanbarthol a chyfnewid gwybodaeth a phrofiadau rhwng Partïon Gwladol am weithredu'r confensiwn ac am gadwraeth Treftadaeth y Byd.



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

## 2.7 Adroddiadau Cyflwr Cadwraeth

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO yn monitro cyflwr cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd. Dylai Partïon Gwladol hysbysu Canolfan Treftadaeth y Byd am ddigwyddiadau mawr (megis argyfyngau naturiol) sy'n effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd yn ogystal â gwaith adfer sylweddol neu ddatblygiadau newydd a allai effeithio ar ei Werth Cyffredinol Eithriadol. Gall trydydd partïon hefyd godi pryderon gyda Chanolfan Treftadaeth y Byd am gyflwr cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd unigol.

Wrth ymchwilio i bryderon ynghylch Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, gallai Pwyllgor Treftadaeth y Byd ofyn am adroddiad cyflwr cadwraeth gan DCMS fel y Parti Gwladol cenedlaethol. Byddai DCMS yn trosglwyddo'r cais i Cadw, a fyddai'n cysylltu â'r rhai sy'n gyfrifol am Safle Treftadaeth y Byd perthnasol lle y bo'n gymwys.

Pan fydd pryderon sylweddol wedi'u codi ynghylch y modd y mae Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei ddiogelu, neu mewn ymateb i adroddiad cyflwr cadwraeth anfoddhaol, bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd a Chanolfan Treftadaeth y Byd yn gofyn i'r Parti Gwladol wahodd Tîm Monitro Adweithiol. Fel arfer mae gwaith monitro o'r fath yn cael ei wneud gan ICOMOS, weithiau ar y cyd â Chanolfan Treftadaeth y Byd a/neu gynrychiolwyr ei chyrff cynghori. Gall Partïon Gwladol ofyn i dimau cynghori edrych ar gynigion a allai effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd a chyflwyno adroddiad arnynt. Nhw fydd yn talu am hyn.

Mewn achosion difrifol iawn, gall Pwyllgor Treftadaeth y Byd roi safle ar y Rhestr o Dreftadaeth y Byd sydd mewn Perygl er mwyn ceisio nodi ffyrdd o unioni difrod, neu, os bydd ei Werth Cyffredinol Eithriadol wedi'i golli, gall dynnu ei enw oddi ar Restr Treftadaeth y Byd yn gyfan gwbl.

*Mae angen i Safleoedd Treftadaeth y Byd barhau i fod yn berthnasol ac yn fywiog. Mae actorion megis y marchog canoloesol hwn yn helpu i ddod â safleoedd yn fyw i ymwelwyr yn yr 21ain ganrif.*

# 3. Polisi Cynllunio a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

## 3.1 Cynllunio ar gyfer Newid

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran rheoli newid i Safleoedd Treftadaeth y Byd, eu gwarchod a'u cadw drwy'r system cynllunio gofodol. Mae'r system yn seiliedig ar gynlluniau ac yn cael ei llywio gan hierarchaeth o ganllawiau cenedlaethol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys *Polisi Cynllunio Cymru* a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn llunio cynlluniau datblygu lleol a, gyda'i gilydd, mae'r polisïau hyn yn gosod y fframwaith a ddefnyddir gan awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth.

## 3.2 Cynlluniau Datblygu Lleol


Er nad oes unrhyw reolaethau statudol ychwanegol yn deillio o ddynodiad Treftadaeth y Byd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol lunio polisïau penodol i ddiogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy reoli gwaith datblygu ar y safleoedd hynny ac yn agos atynt.[12] Dylai'r polisïau hyn ystyried gofynion rhyngwladol a chenedlaethol yn ogystal ag amgylchiadau lleol penodol a dylid eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol.

Dylai polisïau cynlluniau datblygu lleol hefyd adlewyrchu'r ffaith y gall Safleoedd Treftadaeth y Byd fod yn bwysig am resymau yn ymwneud â chydlyniant cymdeithasol ac o ran helpu i feithrin ymdeimlad o falchder. Gallant hefyd fod yn ganolbwynt i addysg, twristiaeth, datblygu economaidd a gweithgarwch adfywio.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio gwneud y canlynol:

- Gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad, gan gynnwys y glustogfa, rhag gwaith datblygu amhriodol.
- Cydbwyso anghenion cadwraeth, bioamrywiaeth, mynediad, buddiannau'r gymuned leol, buddiannau cyhoeddus datblygiad a'r defnydd economaidd cynaliadwy o Safle Treftadaeth y Byd yn ei leoliad, ond gofalu nad yw'r cydbwysedd hwnnw yn cael ei sicrhau ar draul cyfanrwydd na dilysrwydd y safle.
- Ymgysylltu â'r cymunedau lleol o amgylch y safle a darparu buddiannau iddynt.
- Gwarchod Safle Treftadaeth y Byd rhag effaith newidiadau sy'n gymharol fach ond a allai, gyda'i gilydd, gael effaith sylweddol.
- Gwella Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad, lle y bo'n briodol ac yn bosibl, drwy waith rheoli cadarnhaol.
- Gwarchod Safle Treftadaeth y Byd rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd ond sicrhau nad yw camau lliniaru ac ymaddasu yn cael eu cymryd ar draul cyfanrwydd na dilysrwydd y safle.
- Mynnu bod datganiadau dylunio a mynediad yn cael eu llunio ar gyfer cynigion datblygu penodol o fewn Safle Treftadaeth y Byd.[13]

*Yr olygfa ar hyd rhodfeydd muriau tref Conwy.*



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

## 3.3 Canllawiau Cynllunio Ategol

Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio lleol lunio canllawiau cynllunio i ategu'r cynllun datblygu lleol.[14] Gall canllawiau cynllunio ategol ymdrin ag amrywiaeth o faterion thematig a safle-benodol, a all ehangu polisi neu ddarparu rhagor o fanylion am bolisïau mewn cynllun datblygu lleol. Lleolir pob un o Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru o fewn mwy nag un ardal awdurdod cynllunio lleol ac, felly, mae'n hanfodol eu bod yn cydweithredu â'i gilydd. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw drwy fabwysiadu canllawiau cynllunio ategol ar y cyd er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob penderfyniad cynllunio. Mae angen sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y canllawiau cynllunio ategol a'r cynllun datblygu lleol a chynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd.

## 3.4 Lleoliad a Golygfeydd

Mae Canllawiau Gweithredol UNESCO[15] yn ceisio gwarchod 'immediate setting' pob Safle Treftadaeth y Byd ac 'important views and other areas or attributes' sy'n sail i'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Mae'r lleoliad yn fwy na'r ardal o amgylch safle ac mae'n ymestyn y tu hwnt i ffin y safle. Gall hefyd ymwneud â sut y bwriadwyd i'r safle ymdoddi i'r dirwedd, y golygfeydd oddi yno a sut mae'r safle yn cael ei weld o'r ardal oddi amgylch. Nid yw'r lleoliad o reidrwydd yr un peth â'r glustogfa (lle mae un yn bodoli). Gall lleoliad orchuddio neu ymestyn y tu hwnt i'r glustogfa. Ceir canllawiau cyffredinol ar effaith cynigion datblygu ar leoliad asedau hanesyddol yn *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol ac* yn *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*.[16]

Efallai y bydd awdurdodau cynllunio am asesu pa olygfeydd o Safle Treftadaeth y Byd sy'n cyfrannu at ei Werth Cyffredinol Eithriadol. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys astudiaeth sylfaenol lle yr asesir nodweddion y Gwerth Cyffredinol Eithriadol mewn perthynas â golygfeydd. Dylid ymgynghori â'r cyhoedd ar yr astudiaeth cyn iddi gael ei mabwysiadu gan awdurdodau cynllunio. Gellir asesu effaith cynigion datblygu gan ddatblygwyr ac eraill yn erbyn yr astudiaeth sylfaenol hon. Gall dynodiadau tirwedd eraill fod yn effeithiol o ran gwarchod lleoliad Safle Treftadaeth y Byd a dylid eu hesbonio yn y cynllun datblygu lleol.


## 3.5 Clustogfeydd

Mae gan rai Safleoedd Treftadaeth y Byd glustogfeydd. Mae Canllawiau Gweithredol UNESCO yn disgrifio clustogfa fel ardal o amgylch Safle Treftadaeth y Byd y mae cyfyngiadau cyfreithiol a/neu arferol ategol wedi'u gosod ar y ffordd y gellir ei defnyddio a'i datblygu er mwyn rhoi haen ychwanegol o warchodaeth i Werth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd safle.[17] Mae clustogfeydd yn briodol pan fydd ardal o amgylch Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys tirwedd ddiwylliannol, gyfannedd ac esthetig sy'n cyfrannu at leoliad a hanes y safle a'r ffordd y'i cyflwynir ac sy'n bwysig i gyfanrwydd ac weithiau hefyd ddilysrwydd yr arysgrifiad.

Nid yw clustogfa yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Lle y ceir clustogfa dylai gynnwys lleoliad uniongyrchol y safle a arysgrifwyd, golygfeydd pwysig ac ardaloedd neu nodweddion eraill sy'n swyddogaethol bwysig am eu bod yn cynnal y safle ac yn helpu i'w warchod. Fodd bynnag, gall lleoliad Safle Treftadaeth y Byd ymestyn y tu hwnt i'r glustogfa.

Gall clustogfa fod yn ddull rheoli pwysig. Gellir ei defnyddio i nodi ardaloedd lle mae angen i ddatblygwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ystyried effeithiau posibl yn ofalus, a lle y gall cyfyngiadau cynllunio fod yn briodol. Dylid nodi Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u clustogfeydd yn glir ar fapiau cynlluniau datblygu lleol. Dim ond ar ôl i gynnig ar gyfer mân addasiad gael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU y gall newidiadau i ffiniau Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u clustogfeydd gael eu gwneud gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd.

*Mae lleoliad y lanfa yn Llan-ffwyst yn bwysig i gyfanrwydd a dilysrwydd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.*



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

# Canllawiau Cynllunio Ategol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

Arysgrifwyd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2009.

Mae'r safle yn goridor hir a chul sy'n ymestyn am 18km o fan ychydig i'r gogledd o Langollen i Chirk Bank ac yn croesi tair ardal awdurdod lleol. Mae dau o'r awdurdodau yng Nghymru ac un yn Lloegr.

Mae'r safle ei hun, a adeiladwyd mewn lleoliad daearyddol anodd, yn gampwaith ym maes peirianneg sifil. Fe'i cwblhawyd yn ystod blynyddoedd cynnar y Chwyldro Diwydiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod Safle Treftadaeth y Byd yn canolbwyntio ar y gamlas a thraphont ddŵr anferth a chain Thomas Telford, mae clustogfa yn cwmpasu ardal ehangach sy'n cydnabod bod y tirweddau diwylliannol, cyfannedd ac esthetig yn bwysig i Werth Cyffredinol Eithriadol y safle.

Mae'r tirweddau hyn yn cyfrannu at leoliad, ymdeimlad o gyrraedd a hanes Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa ac at y ffordd y'u cyflwynir, ac maent yn bwysig i gyfanrwydd y dynodiad, heb ystyried ffiniau gweinyddol.

Er mwyn cynnal y cyfanrwydd hwn, mae'r tri awdurdod lleol wedi cydweithredu er mwyn sicrhau cysondeb wrth ymdrin â datblygiadau newydd er mwyn diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle ac osgoi effeithiau andwyol ar y lleoliad, gan gynnwys y glustogfa.


Mae'r tri awdurdod cynllunio lleol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Swydd Amwythig, wedi cydweithio i lunio dogfen gynllunio ategol ar y cyd sy'n ymhelaethu ar bolisïau cynlluniau datblygu'r tri chyngor. Oherwydd y systemau cynllunio gwahanol yng Nghymru a Lloegr, mae Wrecsam a Sir Ddinbych wedi'i mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol; bydd Swydd Amwythig yn ei defnyddio i lywio dogfen gynllunio ategol am yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r canllawiau cynllunio ategol yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad.

*Chwith: Mae rheoli Safle Treftadaeth y Byd i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wedi creu mwy o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth.*

*Gwaelod: Mae Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn croesi ffiniau tri awdurdod cynllunio lleol. Mae canllawiau cynllunio ar y cyd yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau cynllunio.*



© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru




Mae'r canllawiau, sydd wedi'u hanelu at ddatblygwyr, aelodau o'r cyhoedd a swyddogion ac aelodau'r cynghorau, yn esbonio'r cyd-destun cynllunio, pwysigrwydd Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa, ac yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer rheoli datblygu fel y'i nodir yng nghynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd ac y cytunwyd arni gydag UNESCO. Mae cysylltu cynllun datblygu'r awdurdod lleol â chynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd drwy ganllawiau cynllunio ategol, yn sicrhau dull cydlynol a chyfannol o warchod y safle a'i ddatblygu.

Mae canllawiau cyffredinol ar gyfer ceisiadau cynllunio yn esbonio bod yn rhaid i gynigion datblygu ddangos sut maent wedi ystyried yr effaith ar Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, gan roi sylw i gymeriad lleol, golygfeydd ac ymdeimlad o gyrraedd yn ogystal â chyfanrwydd a dilysrwydd y safle.


Mae tabl defnyddiol yn cynnig canllawiau manwl ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiad mewn lleoliadau penodol. Mae wedi'i deilwra er mwyn diwallu anghenion penodol ymgeiswyr a'r Safle Treftadaeth y Byd ac mae'n nodi fframwaith ar gyfer sicrhau cysondeb.

Mae dogfen gynllunio ategol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte ar gael ar wefan Bwrdeistref Sirol Wrecsam **http://www.wrexham.gov.uk/welsh/index.cfm** a gwefan cynllun datblygu lleol Cyngor Sir Ddinbych **www.denbighshire.gov.uk**




© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

*Chwith: Mae paneli dehongli yn helpu i esbonio pwysigrwydd y Safle Treftadaeth y Byd i ymwelwyr.*



© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

*Gwaelod: Mae'r olygfa hon o rychwant llawn y draphont ddŵr ar draws Dyffryn Dyfrdwy yn dangos y campwaith hwn o ran peirianneg sifil.*

## Crynodeb

Mae canllawiau cynllunio ategol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn dangos arfer gorau am y rhesymau canlynol:

- Fe'u datblygwyd ar y cyd gan dri awdurdod cynllunio lleol — dau yng Nghymru ac un yn Lloegr — er mwyn ategu cynlluniau datblygu lleol a chynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd.
- Maent yn cydnabod bod cysondeb mewn penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa yn hanfodol i gynnal cyfanrwydd y safle.
- Maent yn cydnabod bod angen rheoli newid yn gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o statws Safle Treftadaeth y Byd.
- Maent yn cynnig canllawiau manwl ar gyfer amrywiaeth o senarios datblygu ar Safle Treftadaeth y Byd ac o fewn ei glustogfa.
- Maent yn cefnogi penderfyniadau cynllunio i warchod Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa.

# 4. Rheoli Datblygu a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

## 4.1 Rheoli Newid

Mae newid yn anochel ac mae angen ei reoli'n ofalus fel nad yw'n peryglu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Gall newid gael effaith fuddiol, niwtral neu andwyol ar Werth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Safle Treftadaeth y Byd. Dylai awdurdodau cynllunio asesu'r effaith hon wrth ystyried ceisiadau cynllunio o fewn Safleoedd Treftadaeth y Byd, eu lleoliadau neu eu clustogfeydd.

Mae dymunoldeb cynnal Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Safle Treftadaeth y Byd wrth ystyried effeithiau gwaith datblygu arfaethedig ar ei leoliad a, lle mae'n bodoli, glustogfa Safle Treftadaeth y Byd, yn ystyriaeth berthnasol bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.[18]

Nid yw statws Safle Treftadaeth y Byd yn golygu nad oes rhaid ystyried dynodiadau statudol ac anstatudol eraill, megis adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a leolir o fewn Safle Treftadaeth y Byd, ei leoliad neu ei glustogfa (os oes un), nac ychwaith roi llai o bwys arnynt wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

## 4.2 Asesu Effaith Datblygu ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

Ym mhob achos sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar Werth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad, yr arfer gorau yw cynnal trafodaethau cyn ymgeisio[19] gyda'r awdurdod cynllunio a Cadw er mwyn sicrhau y deellir yr holl oblygiadau yn llawn a'u bod yn cael eu nodi'n glir mewn deunydd eglurhaol ategol. Efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn iddo allu penderfynu ar gais cynllunio.[20]

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio egwyddorion cadwraeth Cadw[21] i'w helpu i gyfiawnhau eu cynigion a dangos sut maent wedi ystyried effaith eu cynigion datblygu ar Safle Treftadaeth y Byd a deall yn benodol y canlynol:

- Cymeriad yr ardal lle y lleolir y datblygiad a sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar leoliad Safle Treftadaeth y Byd.
- Sut y bydd y datblygiad o fewn lleoliad Safle Treftadaeth y Byd yn effeithio ar ei Werth Cyffredinol Eithriadol a golygfeydd i mewn i Safle Treftadaeth y Byd ac allan ohono.
- Sut y bydd y datblygiad yn cyfrannu at yr effeithiau ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol, fel y'i diffinnir gan ei nodweddion, a chyfanrwydd a dilysrwydd Safle Treftadaeth y Byd, neu'n eu lleihau.

Bydd natur, maint a lleoliad datblygiad yn bwysig wrth benderfynu ar amrywiaeth a manylder yr wybodaeth y bydd angen ei chyflwyno gyda chais cynllunio. Dylid llunio datganiad dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau cynllunio penodol o fewn Safle Treftadaeth y Byd.[22]

Dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â Cadw ar bob cais cynllunio sy'n debygol o effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.[23] Efallai y bydd awdurdodau cynllunio hefyd am ymgynghori ag ICOMOS-UK.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol groesawu gwaith dylunio modern priodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad.

## 4.3 Hawliau Datblygu a Ganiateir

O dan rai amgylchiadau, cyfyngir ar hawliau datblygu a ganiateir ar Safleoedd Treftadaeth y Byd er mwyn atal unrhyw effaith bosibl ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol.[24] Bwriedir i hyn reoli newidiadau bach cronnol a allai, dros amser, danseilio Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd, dilysrwydd a chymeriad y safle.

Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol am ystyried Cyfarwyddydau Erthygl 4 neu Erthygl 7 i gyfyngu ar ddosbarthiadau eraill o ddatblygu a ganiateir a allai fod yn niweidiol o fewn Safleoedd Treftadaeth y Byd. Gallai cyfarwyddydau o'r fath fod yn  ffyrdd priodol o wella'r modd y gwarchodir y Gwerth Cyffredinol Eithriadol.[25]

Er na fydd angen cyflwyno cais cynllunio ar gyfer rhai mathau o waith datblygu, megis gwaith a wneir gan ymgymerwyr statudol a gwaith datblygu sy'n ddarostyngedig i hysbysiadau amaethyddol a choedwigol, dylai'r awdurdod perthnasol ystyried yr effaith ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol a chymryd camau er mwyn sicrhau nad amherir ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol lle bynnag y bo modd. Gall Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth fod yn briodol.

## 4.4 Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol

Ystyrir bod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn 'ardaloedd sensitif' at ddibenion y rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol.[26] Pan fydd angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol, dylai asesiad o'r effaith ar dreftadaeth fod yn rhan o'r astudiaeth ehangach hon. Ceir canllawiau ar broses asesu'r effaith ar dreftadaeth yn Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru.[27]

Nid yw asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a gynhelir o dan yr amgylchiadau hyn yn atodol at asesiad safonol o'r effaith amgylcheddol ond mae'n rhan annatod ohono.

Pan fydd angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol, dylai'r Datganiad Amgylcheddol nodi effeithiau amgylcheddol datblygiadau arfaethedig a chynnig mesurau lliniaru a monitro priodol.[28] Mae hefyd yn arfer da i'r Datganiad Amgylcheddol ystyried dulliau amgen o gyflawni'r gwaith datblygu.

## 4.5 Galw Ceisiadau Cynllunio i Mewn a'u Cyfeirio at Bwyllgor Treftadaeth y Byd

Gall Gweinidogion Cymru ystyried galw i mewn unrhyw geisiadau cynllunio sy'n codi materion cynllunio sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol.[29] Gellid ystyried ei bod yn briodol galw ceisiadau i mewn pan fydd y cynigion yn effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd wedi gofyn i Bartïon Gwladol ei hysbysu'n gynnar yn y broses am gynigion a all effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd a 'before making any decisions that would be difficult to reverse, so that the committee may assist in seeking appropriate solutions to ensure that the Outstanding Universal Value of the property is fully preserved'.

Gellir hysbysu DCMS am achosion a all effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd y mae Gweinidogion Cymru yn gofyn iddynt gael eu galw i mewn cyn y penderfynir ar y cais cynllunio. Gall DCMS gyfeirio'r achos at Bwyllgor Treftadaeth y Byd.

*Castell a Muriau Tref Conwy — un o'r pedwar safle sy'n ffurfio Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.*



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru

# Atodiadau

## Atodiad 1: Rôl Pwyllgor Treftadaeth y Byd

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn cyfarfod bob blwyddyn er mwyn gwneud y canlynol:

- Penderfynu ar y strategaeth ar gyfer rhoi Confensiwn Treftadaeth y Byd ar waith a'i hadolygu.
- Penderfynu ar safleoedd i'w henwebu i'w harysgrifo'n Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Monitro cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy waith monitro adweithiol ac adroddiadau cyfnodol a phenderfynu pa safleoedd y dylid eu rhoi ar y Rhestr o Dreftadaeth y Byd sydd mewn Perygl neu eu dileu o Restr Treftadaeth y Byd.
- Ystyried ceisiadau am gymorth rhyngwladol.
- Codi ymwybyddiaeth o Dreftadaeth y Byd a hyrwyddo gweithgareddau addysgol.

## Atodiad 2: Canllawiau Gweithredol UNESCO

Mae Canllawiau Gweithredol UNESCO yn esbonio'r meini prawf ar gyfer asesu Gwerth Cyffredinol Eithriadol ac yn disgrifio gweithdrefnau sydd eu hangen er mwyn gwarchod, cadw a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd, sy'n cynnwys y canlynol:

- Llunio cynllun rheoli ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd er mwyn dod â'r holl bartïon cyfrifol at ei gilydd a sicrhau y caiff ei reoli mewn ffordd gydgysylltiedig.
- Mesurau deddfwriaethol a rheoliadol cenedlaethol a lleol sy'n sicrhau y bydd y safle yn goroesi ac y caiff ei warchod rhag gwaith datblygu a newidiadau a allai gael effaith andwyol ar Werth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd neu ddilysrwydd y safle.
- Lle y bo angen, darparu clustogfa ddigonol fel y bo'r safle a arysgrifiwyd yn cael ei warchod yn briodol.
- Rhaid i Bartïon Gwladol gyflwyno adroddiadau cyfnodol i UNESCO sy'n cofnodi'r modd y maent yn rhoi Confensiwn Treftadaeth y Byd ar waith a chyflwr cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn eu tiriogaethau.

## Atodiad 3: Enwebu ac Ailenwebu

Caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd eu harysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd. Rhaid iddynt fodloni o leiaf un o 10 maen prawf (mae chwech ohonynt yn rhai diwylliannol a phedwar yn rhai naturiol), a ddefnyddir i asesu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, a bodloni gofynion cyfanrwydd ac — yn achos safleoedd o bwys diwylliannol — ddilysrwydd.[30]

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn arysgrifo Safleoedd Treftadaeth y Byd ar Restr Treftadaeth y Byd yn dilyn proses graffu ofalus gan gyrff cynghori rhyngwladol sy'n cymryd tua 18 mis o'r adeg y caiff safleoedd eu henwebu gan lywodraethau cenedlaethol. Rhaid i'r enwebiad ddangos pwysigrwydd y safle drwy astudiaeth gymharol o safleoedd eraill sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Rhaid i safleoedd fod â lefel ddigonol o warchodaeth gyfreithiol a systemau rheoli i warchod eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, gan gynnwys eu cyfanrwydd a'u dilysrwydd.

Cyn y gellir enwebu safle i Bwyllgor Treftadaeth y Byd, rhaid ei gynnwys ar restr enwebiadau posibl ei lywodraeth genedlaethol. Mae hon yn rhestr o safleoedd y gallai llywodraeth ystyried eu henwebu dros gyfnod o 10 mlynedd. Cyhoeddir y rhestr o enwebiadau posibl ar wefan UNESCO. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru un safle ar restr y DU o enwebiadau posibl, sef Diwydiant Llechi Gogledd Cymru.

Mae argymhellion o ran safleoedd y dylid eu cynnwys ar y rhestr o enwebiadau posibl yn destun craffu gan banel arbenigol annibynnol o gynghorwyr arbenigol a gynullwyd gan DCMS ac a gadeirir ar hyn o bryd gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO.

Os bydd Parti Gwladol am addasu ffin Safle Treftadaeth y Byd yn sylweddol neu gwtogi ar nifer y meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arysgrifiad gwreiddiol, ychwanegu atynt neu eu newid, bydd yn cyflwyno'r cais hwn fel pe bai'n enwebiad newydd. Caiff yr ailenwebiad hwn ei werthuso yn unol â'r gweithdrefnau a'r amserlen a nodir ym mhara. 168 o'r Canllawiau Gweithredol.[31]

# Rhestr Termau

## Nodweddion

Gellir diffinio nodweddion fel mynegiant o'r gwerthoedd diwylliannol sy'n bodloni amodau dilysrwydd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd.

## Dilysrwydd

Y nodweddion hynny sy'n adlewyrchu ac yn ymgorffori gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol ased hanesyddol orau.

Gan ddibynnu ar y math o dreftadaeth ddiwylliannol, a'i chyd-destun diwylliannol, gellir deall bod eiddo yn bodloni amodau dilysrwydd os yw ei werthoedd diwylliannol (fel y'u cydnabyddir yn y meini prawf enwebu a gynigir) yn cael eu mynegi'n gywir ac yn gredadwy drwy amrywiaeth o nodweddion gan gynnwys y canlynol: ffurf a dyluniad; deunyddiau a sylwedd; defnydd a swyddogaeth; traddodiadau, technegau a systemau rheoli; lleoliad; iaith a mathau eraill o dreftadaeth anniriaethol; ysbryd a theimlad; a ffactorau mewnol ac allanol eraill.

## Clustogfa

Mae'n bwysig gwarchod lleoliad Safle Treftadaeth y Byd. Mae gan rai Safleoedd Treftadaeth y Byd glustogfa o amgylch eu ffiniau neu ynghlwm wrthynt, sy'n rhoi haen ychwanegol o warchodaeth i'r safle. Nid yw'r glustogfa ei hun o Werth Cyffredinol Eithriadol ond mae'n cynnwys lleoliad uniongyrchol Safle Treftadaeth y Byd a golygfeydd a nodweddion pwysig sy'n swyddogaethol bwysig am eu bod yn cynnal y Safle Treftadaeth y Byd ac yn helpu i'w warchod. Dim ond Pwyllgor Treftadaeth y Byd a all ddiwygio neu newid clustogfeydd.

## ICCROM

Mae'r Ganolfan Ryngwladol dros Astudio Diogelu ac Adfer Eiddo Diwylliannol yn gorff rhynglywodraethol sy'n rhoi cyngor arbenigol ar sut i gadw safleoedd, yn ogystal â darparu hyfforddiant mewn technegau adfer.

## ICOMOS

Sefydlwyd y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd, sy'n sefydliad anllywodraethol, ym 1965 ar ôl i Siarter Venice gael ei mabwysiadu, er mwyn hyrwyddo athrawiaeth a thechnegau cadwraeth. Mae ICOMOS yn darparu gwerthusiadau ar gyfer Pwyllgor Treftadaeth y Byd o eiddo â gwerthoedd diwylliannol y cynigiwyd y dylid ei arysgrifio ar Restr Treftadaeth y Byd, yn ogystal ag astudiaethau cymharol, cymorth technegol ac adroddiadau ar gyflwr cadwraeth eiddo a arysgrifwyd.

## ICOMOS-UK

ICOMOS-UK yw Comisiwn Cenedlaethol y DU dros ICOMOS ac mae'n elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor ar agweddau ar Dreftadaeth y Byd a safleoedd i'w henwebu ledled y DU. Mae'n hyrwyddo ac yn cefnogi arfer gorau o ran cadw'r amgylchedd hanesyddol, gofalu amdano a'i ddeall.

## Cyfanrwydd

Cyflawnder, gonestrwydd.

Mae cyfanrwydd yn fesur o ba mor gyflawn yw'r dreftadaeth naturiol a/neu ddiwylliannol a'i nodweddion. Wrth archwilio amodau cyfanrwydd mae angen asesu i ba raddau y mae'r eiddo:

- yn cynnwys yr holl elfennau sydd eu hangen er mwyn mynegi ei Werth Cyffredinol Eithriadol
- yn ddigon mawr i sicrhau bod y nodweddion a'r prosesau sy'n cyfleu pwysigrwydd yr eiddo yn cael eu darlunio'n gyflawn
- yn dioddef o effeithiau andwyol gwaith datblygu a/neu esgeulustod.

## IUCN

Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn sefydliad anllywodraethol rhyngwladol sy'n darparu gwerthusiadau technegol o eiddo treftadaeth naturiol ac yn cyflwyno adroddiadau, drwy ei rwydwaith byd-eang o arbenigwyr, ar gyflwr cadwraeth safleoedd rhestredig.

## Gwerth Cyffredinol Eithriadol

Diffinnir Gwerth Cyffredinol Eithriadol fel 'cultural and/ or natural significance which is so exceptional as to transcend national boundaries and to be of common importance for present and future generations of all humanity'.[32]

## Rhanddeiliad

Unigolyn/sefydliad/busnes sydd â diddordeb neu fuddiant yn Safle Treftadaeth y Byd.

## Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol

Mae gan bob Safle Treftadaeth y Byd Ddatganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd, sy'n cynnwys datganiadau o gyfanrwydd ac — yn achos safleoedd diwylliannol — ddilysrwydd. Mae'r Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol yn darparu dealltwriaeth glir a rennir o'r rhesymau dros arysgrifo'r safle ar Restr Treftadaeth y Byd a dim ond Pwyllgor Treftadaeth y Byd a all ei newid. Mae'n ddogfen gyfeirio allweddol ar gyfer gwarchod, rheoli a monitro pob safle.

## Partïon Gwladol

Mae Partïon Gwladol yn wledydd sydd wedi cadarnhau Confensiwn Treftadaeth y Byd. Maent yn nodi ac yn enwebu safleoedd o fewn eu tiriogaeth genedlaethol y dylid ystyried eu harysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae Partïon Gwladol yn gyfrifol am ddiogelu gwerthoedd Treftadaeth Byd y safleoedd a arysgrifwyd a chyflwyno adroddiadau cyfnodol ar eu cyflwr.

## Cynaliadwy

Y gallu i gael ei gynnal ar gyfradd neu lefel benodol. Yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy a gweithgarwch rheoli, gellir ei ddisgrifio fel diwallu 'the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs' (Comisiwn Brundtland, y Cenhedloedd Unedig, 1983).

## Datblygu Cynaliadwy

Yng Nghymru, golyga hyn wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, a gwella ansawdd bywyd ein cenedlaethau ein hunain mewn ffyrdd sy'n gwneud y canlynol:

- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei derfynau — gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd.

**UNESCO** yw Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig.

## Rhestr Treftadaeth y Byd

Sefydlwyd Rhestr Treftadaeth y Byd drwy Gonfensiwn UNESCO ynghylch Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd 1972 (Confensiwn Treftadaeth y Byd). Yn gyffredinol, mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn ychwanegu tua 25–30 o safleoedd y flwyddyn at y rhestr. Yn 2016, roedd 1,031 o safleoedd ar y rhestr, wedi'u lleoli mewn 163 o wledydd ledled y byd, gan gynnwys 29 yn y DU.

## World Heritage UK

Mae World Heritage UK yn hyrwyddo rheoli a chadw Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU mewn ffordd gynaliadwy drwy eirioli, rhwydweithio a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Mae'n helpu pobl i gydnabod a deall pwysigrwydd cadw, gwarchod a gwella Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Gall unrhyw sefydliad sy'n chwarae rôl sylfaenol yn rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn y DU, unrhyw sefydliad sy'n chwarae rôl sylfaenol yn paratoi'r enwebiad ar gyfer rhestr o ddarpar Safleoedd Treftadaeth y Byd, ac unrhyw awdurdod lleol y ceir Safle Treftadaeth y Byd o fewn ei ardal weinyddol, ymaelodi â World Heritage: UK.

# Cyfeiriadau


1 *Polisi Cynllunio Cymru:* Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau 6.4.4 and 6.5.1–6.5.3

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, adran 3

2 Ceir datganiadau o Werth Cyffredinol Eithriadol ar gyfer safleoedd yng Nghymru ar wefan UNESCO'
http://whc.unesco.org/en/list

3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

4 *UNESCO Convention Concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage*
http://whc.unesco.org/en/conventiontext

5 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* 3.7

6 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016, erthygl 9
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/article/9/made

7 *Polisi Cynllunio Cymru:* Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.4

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol,* para. 3.6

8 *Polisi Cynllunio Cymru:* Pennod 6 — *Yr Amgylchedd Hanesyddol,* para. 6.4.8

*Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru* (i'w gyhoeddi)

9 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

10 *UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention*
http://whc.unesco.org/en/guidelines

11 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, paragraffau 3.11–12

12 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol,* para. 3.6

13 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016, erthygl 9
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/article/9/made

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 3.14

14 *Nodyn Cyngor Technegol 14: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 2.4

15 *UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention*
http://whc.unesco.org/en/guidelines

16 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau* 1.20–1.27

*Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, (i'w gyhoeddi)

17 *UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention* paragraffau 103–07
http://whc.unesco.org/en/guidelines

18 *Polisi Cynllunio Cymru: Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol,* para. 6.5.1

19 Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, *Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Ymgeisio* (Mai 2012)
http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?skip=1&lang=cy

20 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ardan 62
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/section/62

21 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

22 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016, erthygl 9

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/article/9/made

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 3.14

23 *Polisi Cynllunio Cymru: Pennod* 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.5.3

24 *Planning Policy Wales: Pennod* 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.5.2

25 Gorchymyn ColdFusion Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Erthyglau 4 a 7
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1995/418/contents/made

26 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, Rhan 1, 2.
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1999/293/regulation/2/made

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 3.13

27 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw (i'w gyhoeddi)

28 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, Atodlen 4, Rhan 1
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1999/293/schedule/4/made

29 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ardan 77
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/section/77

*Polisi Cynllunio Cymru: Pennod* 3 — Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. para. 3.12

30 *UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention*, para. 77
http://whc.unesco.org/en/guidelines

31 *UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention,* para. 168
http://whc.unesco.org/en/guidelines

32 *UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention*, para. 49
http://whc.unesco.org/en/guidelines

# Rhagor o Wybodaeth

**Polisi a Chanllawiau Cynllunio**

*Polisi Cynllunio Cymru*

*Polisi Cynllunio Cymru:* Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*
*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*

**Canllawiau Cynllunio Ategol**

Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte http://www.wrexham.gov.uk/welsh/planning_portal_w/lpg_notes/lpg33.htm

**Canllawiau Arfer Gorau**

*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011 http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

*Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru,* Cadw (i'w gyhoeddi)

*Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru*, Cadw (i'w gyhoeddi)

*UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention* http://whc.unesco.org/en/guidelines/

*UNESCO Managing Cultural World Heritage* http://whc.unesco.org/document/125839

*UNESCO Convention Concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage* http://whc.unesco.org/en/convention/

**Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru**

Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/worldheritage/cstlsedward1/?skip=1&lang=cy

Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon http://www.visitblaenavon.co.uk/en/Homepage.aspx

Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte http://www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk/

# Cysylltiadau

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn. 01443 336000

Tîm Polisi Treftadaeth y Byd Cadw
cadw@wales.gsi.gov.uk

http://gov.wales/cadw

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**
http://www.dcms.gov.uk

**ICCROM** http://www.iccrom.org/

**ICOMOS-UK** http://www.icomos-uk.org/world-heritage/

**ICOMOS** http://www.icomos.org/en/

**IUCN** http://www.iucn.org/

**Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO**
http://www.unesco.org.uk/

**Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO**
http://www.whc.unesco.org

**World Heritage UK**
https://worldheritageuk.org/

*Yr olygfa ar draws rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.*



© Hawlfraint y Goron (2016), Cadw, Llywodraeth Cymru


Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
01443 336000
*cadw@cymru.gsi.gov.uk*
*http://gov.wales/cadw*


Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.


OGL
© Hawlfraint y Goron 2016


WG26915



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle nodir deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint, gan gynnwys Cadw, Nick Horler Photography, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Croeso Cymru.


Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen. Am fanylion, cysylltwch â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 336000.